# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2018

Amser: 14.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(14.45 - 15.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(15.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(15.00 - 15.05) (Tudalennau 1 - 4)

## 3 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 5

(15.05 - 16.15) (Tudalennau 5 - 44)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-02-18 Papur 1 - Papur gan Lywodraeth Cymru

Tracey Burke - Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

John Howells - Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.15)

Eitemau 5 & 6

## 5 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.15 - 16.30)

## 6 Gyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru i brosiect Cylchffordd Cymru: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru

(16.30 - 17.00) (Tudalennau 45 - 55)

PAC(5)-02-18 Papur 2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd Parhaol (14 Rhagfyr 2017)

PAC(5)-02-18 Papur 3 - Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Gadeirydd (16 Ionawr 2018)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2018

Amser: 14.00 - 16.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4503

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru<br>Mike Usher<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AC a oedd yn mynychu digwyddiad defnyddwyr gwasanaeth rhanbarthol Cefnogi Pobl Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddigartrefedd: Bydd y Cadeirydd yn anfon copi o'r Adroddiad at John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac yn gofyn am ymgymeriad o ran a oes gan y Pwyllgor y gallu i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn ac os felly, rhoi llinell amser.
- Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch pam y cynhaliwyd yr adolygiad sero ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig ac a yw trosolwg o fewn GIG Cymru wedi'i gynnal/wedi'i gynllunio ar ei effeithlonrwydd.
- Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad o pam nad yw system arlwyo Cymru Gyfan wedi'i darparu eto ac ni ddisgwylir iddi fod ar gael fel rhywbeth 'yn ôl y gofyn' tan 2019, yn ogystal â gofyn am linell amser ar gyfer yr Adolygiad Gateway o System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

**2.1 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cyfrifon Llywodraeth Ganolog 2016 -17**

**2.2 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Digartrefedd Llywodraeth Leol 2017**

**2.3 Caffael Cyhoeddus: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol**

**2.4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (22 Rhagfyr 2017)**

**2.5 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (3 Ionawr 2018)**

## 3 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

3.1 Trafododd yr Aelodau adolygiad Llywodraeth Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel - a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurder o'r amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â'r strategaeth diogelwch cymunedol.

## 4 Sesiwn Ragarweiniol gyda Chyfarwyddwyr Cyffredinol newydd, Llywodraeth Cymru

4.1 Cynhaliodd yr aelodau sesiwn ragarweiniol gyda Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol yn dilyn eu penodiad diweddar.

4.2 Cytunodd Tracey Burke i anfon rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Diweddariad ar elfennau codio y rhaglen Hwb (gwefan a chasgliad o adnoddau ar-lein a ddarperir i bob ysgol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru).

4.3 Cytunodd Andrew Slade i wneud y canlynol:

- Darparu nodyn ar y gydberthynas sydd gan Lywodraeth Cymru â Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU;
- Darparu nodyn dilynol ar y tablau yng nghyd-destun modelu'r economi fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Economaidd;
- Anfon nodyn i ddiweddaru sut y mae'r pwerau arfaethedig i roi mwy o ymreolaeth i Trafnidiaeth Cymru yn mynd rhagddynt; a'r

- Sylw i Gymru o ganlyniad i'r cyhoeddiad heddiw o fethdaliad Carillion.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ac awgrymodd nifer o argymhellion ychwanegol.

6.2 Bydd y Clercod yn diwygio'r adroddiad drafft ac yn ei ddosbarthu i'r Aelodau, i'w gytuno, drwy e-bost.

## 7 Y Rhaglen Waith Gyfredol

7.1 Nododd yr Aelodau gyhoeddi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru ar 11 Ionawr. Dim ond yn ddiweddarach yn y tymor y disgwylir i ymateb Llywodraeth Cymru gael ei dderbyn ac oherwydd ei bod eisoes wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r materion, bydd y Clercod yn trefnu i dystion fynychu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf.

7.2 Trafododd yr Aelodau y materion ariannol sy'n ymwneud â'r diwydiannau ffilm a'r cyfryngau sydd wedi dod i sylw'r cyhoedd yn ddiweddar. Cytunwyd y dylai Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ystyried materion polisi ac y dylid cyfeirio unrhyw faterion rheoli ariannol i'r Pwyllgor hwn. Nodwyd fod disgwyl i ymateb yr Archwilydd Cyffredinol i bryderon a godwyd mewn gohebiaeth gael ei dderbyn yn ystod wythnos 22 Ionawr. Ar ôl ei dderbyn, bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater.

## 8 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad

8.1 Nodwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Ionawr 2018

Annwyl Mr Ramsay,

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS I RAGLEN CEFNOGI POBL LLYWODRAETH CYMRU 22 IONAWR 2018**

Mae'n dda gennyf amgáu papur yn unol â'r cais a dderbyniwyd yn amlinellu'r meysydd o ddiddordeb penodol a amlinellwyd gan y pwyllgor cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sydd i'w gynnal 22 Ionawr.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Papur Tystiolaeth ar y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 22 Ionawr 2018**

Nod y papur hwn yw darparu tystiolaeth gefndir a thystiolaeth berthnasol mewn perthynas â barn Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r meysydd penodol o ddiddordeb y cyfeiriodd y pwyllgor atynt:

- Effaith gwaith datblygu polisi ehangach
- Dosbarthu cyllid a chynllunio ariannol
- Monitro a gwerthuso

## 1. Effaith Gwaith Datblygu Polisi Ehangach

Rhaglen Cefnogi Pobl

1.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i ystod eang o unigolion, gan gynnwys y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, pobl sy'n ddigartref, pobl sy'n gadael gofal a phobl hŷn. Mae'n helpu pobl i ddod o hyd i gartref a'i gadw, ac i fyw'n annibynnol. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai pan fydd pobl yn wynebu argyfwng neu oherwydd gwendidau parhaus. Mae hyn yn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cydnabuwyd pwysigrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl o ran lleihau digartrefedd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth yn eu papurau tystiolaeth i'r Pwyllgor.

1.2 O ystyried yr ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaethau a chymhlethdod yr heriau y maent yn eu hwynebu mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn effeithio ar bolisi mewn llawer o feysydd eraill o'r Llywodraeth, sy'n rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli.

1.3 Mae polisi sydd heb ei ddatganoli sydd o ddiddordeb arbennig i'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cynnwys rhaglen Diwygio Lles ac Adolygiad o Lety â Chymorth Llywodraeth y DU. Er nad yw diwygio lles ehangach yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar dai â chymorth, mae'n effeithio ar yr amgylchiadau lle y darperir cymorth. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am gymorth wrth i'r pwysau yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol droi'n bwysau ariannol sy'n effeithio ar allu unigolion i ymdopi â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

1.4 Mae yna faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad o Lety â Chymorth. Mae cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth y DU ei bod yn cyfyngu'r adolygiad i lety tymor byr yn lleihau rhywfaint o'r pryder ynghylch cynaliadwyedd y ddarpariaeth sefydlog o lety â chymorth. Erys cryn dipyn o waith datblygu polisi i'w wneud er mwyn sefydlu fframwaith cyllido ar gyfer costau llety â chymorth tymor byr a dalwyd yn y gorffennol drwy'r system Budd-dal Tai. Mae'r prif bryderon yn ymwneud â'r angen i roi sicrwydd i ddarparwyr a chomisiynwyr y gellir cynnal y ddarpariaeth ac y gellir datblygu darpariaeth newydd, ac mae hyn yn aml yn gysylltiedig â benthyciad hirdymor. Ar yr un pryd mae cyfleoedd i ddatblygu goruchwyliaeth well o werth am arian o fewn y ddarpariaeth ac mae rhanddeiliaid wedi nodi cyfle posibl i leihau profion modd o fewn y system er lles defnyddwyr.

1.5 Bydd yr arian ar gyfer Llety â Chymorth yn cael ei drosglwyddo i Gymru o fis Ebrill 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu hyn. O gofio cyd-ddibyniaeth cyllid ar gyfer brics a morter a chymorth, rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu mecanwaith cydlynol ar gyfer y cyllid newydd hwn ochr yn ochr â'r Rhaglen Cefnogi Pobl bresennol.

Hyblygrwydd ariannol / datblygu grant cyfunol

1.6 Er mwyn ymateb i bwysau parhaus ar y gyllideb, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru edrych am ffyrdd o amddiffyn gwasanaethau rheng flaen a gwneud arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd.

1.7 Mae Llywodraeth Leol wedi dadlau'n gryf y gall nifer a chymhlethdod systemau grant penodol arwain at feichiau biwrocrataidd a rhwystro arloesi a allai ddarparu ffyrdd mwy costeffeithiol o sicrhau bod gwariant yn cael mwy o effaith. Mae amrywiol raglenni sydd wedi'u hanelu at gefnogi pobl neu gymunedau sy'n agored i niwed ar waith, a phob un yn cael eu hategu gan grantiau penodol sydd â'u gofynion, eu cyfyngiadau, eu costau cysylltiedig a'u biwrocratiaeth eu hunain. Mae Llywodraeth Leol wedi herio Llywodraeth Cymru i symud tuag at ddad-neilltuo i raddau llawer mwy.

1.8 Ystyrir creu un 'Grant Ymyrryd yn Gynnar, Atal a Chymorth' yn 2019-20. Cydnabyddir y gallai system grant ehangach gynorthwyo i alinio'r rhaglen yn fwy strategol er mwyn diwallu anghenion lleol yn well a chynyddu cost-effeithiolrwydd, ond rhaid i hynny fod yn gytbwys ochr yn ochr â chadw lefel o amddiffyniad ar ffurf arian wedi'i glustnodi rhwng y gwasanaethau hyn a'r gwasanaethau statudol.

1.9 I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn gweithio gyda saith ‘awdurdod braenaru’ yn 2018-19; bydd gan yr awdurdodau braenaru hyblygrwydd llawn ar draws 10 o grantiau. Disgwylir i'r cynnydd hwn o ran rhyddid a'r hyblygrwydd ariannol alluogi'r awdurdodau braenaru i weithio'n wahanol, a rhoi mwy o le iddynt ddylunio gwasanaethau i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gyflwyno dulliau mwy ataliol, hirdymor. Bydd hyblygrwydd y 15 Awdurdod Lleol sy'n weddill yn cynyddu 15% ar draws pum grant. Bwriedir i hyn eu helpu i symud tuag at ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol. Os caiff hyn ei gyflwyno, byddai’r grant cyfunol yn grant wedi’i glustnodi y tu allan i’r Setliad Refeniw a fyddai’n cwmpasu’r amrywiaeth o grantiau a nodir uchod.

1.10 Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto o ran a ddylid symud ymhellach na’r trefniadau hyblyg i ddwyn ynghyd grantiau penodol unigol i greu un grant cyfunol ar gyfer 2019-20. Mae Gweinidogion wedi dweud eu bod o blaid cyflwyno grant o'r fath, ond bydd y penderfyniad i wneud hynny neu beidio yn seiliedig ar adborth o'r awdurdodau braenaru a gwaith arall sy’n ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd trefniadau dros dro ar gyfer yr awdurdodau braenaru yn caniatáu monitro canlyniadau cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau cleientiaid ac mae gwerthusiad allanol o'r broses yn cael ei gomisiynu.

1.11 Rydym yn ymwybodol o bryderon rhanddeiliaid ynghylch y grant cyfunol arfaethedig, ac yn benodol, y sylwadau a wnaed ar y mater hwn i'r pwyllgor gan Cymorth a Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'n bwysig deall bod y mater hwn yn cael eu hystyried i gynnig mwy o hyblygrwydd a gallu diwallu anghenion lleol yn well. Mae'n anodd asesu maint unrhyw arbedion effeithlonrwydd a allai ddeillio o grant cyfynol, gan fod amryw o delerau ac amodau'n gysylltiedig â grantiau. Mae grantiau gwahanol yn ymdrin yn wahanol â chostau gweinyddol, sy'n ychwanegu at gymhlethdod Awdurdodau Lleol sy'n gweinyddu grantiau yn ogystal â'i gwneud hi'n anodd amcangyfrif cyfanswm arbedion costau gweinyddol ar draws ystod o grantiau.

1.12 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Grantiau a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2011 yn nodi "Caiff costau gweinyddu a rheoli grantiau eu rhannu rhwng cyllidwyr a'r rhai sy'n derbyn y grantiau ac fel arfer maent yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o'r arian". Rydym hefyd yn ymwybodol bod adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 yn ystyried "y byddai'n dda o beth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu targed cychwynnol na ddylai mwy na 5% o'r holl arian grant fynd ar weinyddu" gydag uchelgais i leihau hyn ymhellach.

<u>Cyllideb Cefnogi Pobl</u>

1.13 Nid oes toriadau i gyfanswm y dyraniad ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2018-19 a 2019-20. Mae gan Rhaglen Cefnogi Pobl ei linell wariant ei hun yng nghyllideb 2018-19. Yn 2019-20 bydd yn cael ei gynnwys mewn llinell wariant wahanol, a fyddai'n caniatáu ar gyfer creu grant ehangach newydd, ond bydd lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cefnogi Pobl yr un fath â lefelau 2017-18.

1.14 Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos cyfanswm cyllideb gyfunol ar gyfer 'grant ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth' yn 2019-20 sydd tua £13 miliwn yn llai na chyfanswm grantiau unigol yn 2018-19. Roedd hyn yn adlewyrchu'r angen i gyflawni arbedion ar draws ystod gyfan o weithgareddau Llywodraeth Cymru. Fel rhan o broses barhaus cyllidebau, byddwn yn parhau i adolygu'r swm sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau gofynnol wrth gynllunio ar gyfer cyllideb 2019-20. Mae Gweinidogion wedi bod yn glir, er bod angen arbed arian yn gyffredinol, nad oes toriad penodol yng nghyllid Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae Gweinidogion hefyd yn awyddus y dylai telerau ac amodau'r grant barhau i fod yn ddigon tynn i sicrhau bod eglurder ynghylch y disgwyliadau ar awdurdodau lleol a gefnogir ac y bydd trefniadau atebolrwydd a monitro digon cadarn ar waith.

1.15 Rydym yn cydweithio ag awdurdodau braenaru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r gwaith hwn. Yn ystod gweddill 2017-18 byddwn yn datblygu fframwaith canlyniadau cychwynnol a fydd yn gweithredu ochr yn ochr ag unrhyw drefniadau ar gyfer grant cyfunol.

1.16 Byddwn yn derbyn cynlluniau cyflawni gan yr awdurdodau, a bydd y rhain yn destun proses asesu gadarn o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion. Dilynir hyn gan gynnig cyllid terfynol cyn 2018-19.

1.17 Byddwn yn caffael gwerthusiad allanol o'r broses i ddeall a phrofi'r rhwystrau a dysgu o arferion gorau.

**2. Dosbarthu Cyllid a Chynllunio Ariannol**

Dosbarthu

2.1 Cynigiodd Adolygiad Aylward a gynhaliwyd yn 2010 y dylid ailddosbarthu cyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl gan ddefnyddio fformiwla sy'n cyd-fynd yn well ag angen.

2.2 Byddai'r ailddosbarthu wedi golygu y byddai rhai ar eu hennill ac eraill ar eu colled a nodwyd ei bod yn ddymunol rheoli'r broses bontio i system ddosbarthu newydd drwy liniaru'r effaith ar y rhai y byddai eu dyraniadau'n lleihau o dan drefniadau newydd. Fodd bynnag, yn 2013 daeth yn amlwg yng nghyd-destun pwysau cyffredinol sylweddol ar gyllidebau na fyddai cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi trefniadau pontio. Argymhellodd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Rhaglen Cefnogi Pobl i Weinidogion y dylid oedi cyn cyflwyno newid i'r fformiwla dosbarthu, a derbyniodd Gweinidogion Cymru yr argymhelliad. Mae'r gyllideb Cefnogi Pobl wedi bod yn wastad ers 2015-16 ac o ganlyniad nid yw'r gwaith ailddosbarthu wedi cael ei wneud.

Cynllunio Ariannol

2.3 Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch cyllidebau gwastad yn ystod cyfnod pan fo costau'n cynyddu. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i diogelu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyhoeddwyd amddiffyniad dwy flynedd arall fel rhan o'r cytundeb cyllideb drafft ym mis Hydref 2017 - yn wahanol iawn i brosiectau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Maent hefyd yn bryderus ynghylch caffael, Awdurdodau Lleol yn rhoi blaenriaeth i gost yn hytrach nag ansawdd a cholli darparwyr. Bydd y pryderon hyn yn cael sylw yn y canllawiau newydd pan gânt eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2018.

2.4 Gwerthfawrogwn y byddai cyllidebau hir dymor yn helpu sefydliadau i gynllunio, ond rydym yn ymwybodol bod nifer o awdurdodau yn defnyddio'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r rhaglen i ddarwahanu dyddiadau cychwyn ar gyfer contractau a gomisiynir o dan y Rhaglen.

## 3. Monitro a Gwerthuso

3.1 Ein nod yw sicrhau bod y rhaglen yn casglu data ar ganlyniadau i unigolion ac yn gallu dangos effaith y cyllid o ran gwella ansawdd bywyd pobl. Mae'r set ddata olaf a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn dangos 53,208 o ganlyniadau pendant ar gyfer cyfnod 2 (chwe mis) 2016. Mae sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lleihau'r baich yn sgil casglu data a'r angen i allu dangos effaith a monitro perfformiad yn her. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch i ba raddau y caiff darparwyr eu monitro. Rydym wedi gweithio gyda nhw ar fireinio'r gofynion monitro cyfredol. Daeth ymarfer ymgynghori i ben ar 4 Awst 2017, a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2018. Drwy'r gwaith parhaus ar y Rhaglen Ariannu Hyblyg mae cyfle inni adeiladu ar y gwaith hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith canlyniadau yng nghyd-destun dibenion grant ehangach.

3.2 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd hyd yma wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd nifer o lwybrau ymchwil, gan gynnwys data sy'n cysylltu data'r

Rhaglen Cefnogi Pobl â'r Banc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru.

3.3 Mae ymchwil SAIL wedi dangos tystiolaeth o effaith gwasanaethau Cefnogi Pobl ar iechyd a'r defnydd mwy priodol o wasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud gwaith ychwanegol i gasglu a pharu data o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

3.4 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ganfyddiadau paru data Cefnogi Pobl â chronfa ddata SAIL yma; http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-feasibility-study/?lang=cy

3.5 Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon ynghylch dangos tystiolaeth o effaith y rhaglen Cefnogi Pobl ar ddigartrefedd. Mae data digartrefedd yn cofnodi ymyriadau sy'n digwydd o fewn y cyfnod dyletswydd statudol 56 diwrnod ar ôl i rywun ddod yn ddigartref. Fodd bynnag, mae llawer o ymyriadau'r rhaglen Cefnogi Pobl yn digwydd cyn y ddyletswydd statudol 56 diwrnod. O dan newidiadau i gofnodi canlyniadau, mae awdurdodau lleol bellach yn cofnodi statws tai ar ddechrau ac ar ddiwedd y cymorth.

3.6 Yn ychwanegol at fonitro cynlluniau a chanlyniadau gwario, rydym wedi cynnal adolygiadau o bob awdurdod lleol i fonitro pa mor effeithiol y maent yn defnyddio'r grant. Mae hyn wedi arwain at newid mewn nifer o awdurdodau lleol ac mae wedi nodi arferion da sydd wedi cael eu rhannu fel rhan o'r adolygiadau ac yn y Rhwydwaith Cefnogi Pobl, er enghraifft, adolygiad Sir Ddinbych o wasanaethau anableddau dysgu, gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen yn dod yn niwtral o ran deiliadaeth.

Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 2NQ

14 Rhagfyr 2017

**Y cyllid cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru**

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol,

Fe wyddoch fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn cymryd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru dros y misoedd diwethaf i gynorthwyo ei ymchwiliad i'r cyllid cychwynnol a roddwyd i brosiect Cylchffordd Cymru. Ysgrifennais at James Price ar 20 Hydref 2017 ynghylch cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru â Chwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd ynglŷn â chydbwysedd risg y prosiect, a hefyd am driniaeth y fantolen o gostau'r prosiect pe bai'r Cabinet wedi penderfynu darparu'r gwarantau ariannol i'r prosiect y gofynnodd Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd amdanynt.

Trafododd y Pwyllgor ymateb James Price dyddiedig 17 Tachwedd yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr, a chanfu fod rhai o'r ymatebion braidd yn aneglur. O gofio y gallai ystyriaethau risg prosiect a chyfrifyddu tebyg godi eto mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf mawr yn y dyfodol yn ymwneud â phenderfyniadau cyllid cyhoeddus a phreifat, penderfynodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch chi fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae gennym bryderon penodol ynghylch agweddau ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r mater o ddosbarthiad y fantolen. Roedd yn ymddangos bod y mater hwn wedi codi'n hwyr iawn yn y broses ac fe'i nodwyd fel y prif reswm dros wrthod ariannu'r prosiect. Fel Pwyllgor, rydym yn ceisio pennu llinell amser ar gyfer y wybodaeth hon, a'r llif gwybodaeth rhwng swyddogion perthnasol ar draws y llywodraeth. I wneud hyn, byddem yn croesawu'ch

ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Mae cofnodion y Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol dyddiedig 12 Mehefin 2017 (ynghlwm) yn datgan:

   *'Wales*: Circuit of Wales, currently under due diligence. If classification related issues arise then will inform ONS.'

   Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch naill ai nad oedd y swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn yn ymwybodol o unrhyw faterion dosbarthiad y fantolen a nodwyd yn yr adroddiadau diwydrwydd dyladwy erbyn 12 Mehefin, gan adlewyrchu'r safbwynt trawsadrannol ar yr adeg honno; neu nad oedd yn ymwybodol o'r materion dosbarthu a oedd yn cael eu trafod gan Drysorlys Cymru neu swyddogion Adrannau eraill?

2. Cyfeiriwyd yn nadl Cyfarfod Llawn y Cynulliad (27 Mehefin 2017) ynghylch penderfyniad Cylchffordd Cymru, ac yn y cyfryngau, at e-bost a anfonwyd gan uwch-swyddog at Aviva Investors ar 14 Mehefin 2017 yn nodi ei fod wedi siarad â chyfreithwyr ynglŷn â chydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad oedd unrhyw 'showstoppers' o ran y prosiect. A yw'n wir i ddweud nad oedd yr uwch-swyddog ychwaith yn gwybod ar y pryd am y cyngor newydd ynghylch dosbarthiad y fantolen a fyddai'n arwyddocaol ym mhenderfyniad y Cabinet i wrthod cyllid ar 27 Mehefin (13 diwrnod yn ddiweddarach)? Ac os nad oedd yn ymwybodol ar 14 Mehefin 2017, pa bryd y daeth i wybod am y cyngor hwn?

3. A oedd y ddau swyddog a oedd yn methu â bod yn bresennol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin, oherwydd eu bod yn 'sicrhau bod y broses diwydrwydd dyladwy a gwaith cysylltiedig yn cael eu cwblhau i sicrhau bod gan y Cabinet y wybodaeth gywir i ystyried y prosiect mewn modd cynhwysfawr' ac yn 'gwneud ei benderfyniad mewn ffordd drylwyr a gwybodus', yn gwybod am y cyngor gan swyddogion Trysorlys Cymru a oedd i'w gyflwyno cyn 27 Mehefin, ac os felly, pryd oeddent yn gwybod hynny?

4. A oedd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd yn gwybod am y cyngor am ddosbarthiad y fantolen a oedd i'w gyflwyno i'r Cabinet cyn iddo ymddangos yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin?

Yn ogystal â'r cwestiynau manwl hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio'n glir yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

5. (a) Pa 'reolau' penodol (e.e. safonau cyfrifyddu, gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, canllawiau'r Trysorlys, rheolau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' neu ganllawiau eraill) y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymhwyso wrth benderfynu a ddylid cynnwys ai peidio yn ei datganiadau ariannol blynyddol(ar wyneb y fantolen neu mewn nodyn i'r cyfrifon) y gefnogaeth ariannol gyhoeddus y mae'n ei darparu i brosiectau cyfalaf mawr fel Cylchffordd Cymru?

   (b) Y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth nodi a chymhwyso rheolau o'r fath i'w phenderfyniadau ariannu.

   (c) Disgrifiadau o rolau'r amryw swyddogion/adrannau yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phrosesau o'r fath, a sut/pryd y maent yn rhyngweithio â chyrff perthnasol eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru fel Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

6. Rôl 'Grwpiau Sicrwydd Mewnol', (fel y cyfeirir atynt yn Q24 yn llythyr James Price dyddiedig 11 Medi 2017 at y Pwyllgor), a'r defnydd ohonynt.

7. Eich disgwyliadau chi o sut y dylai'r trefniadau hyn weithredu'n ymarferol, a'ch asesiad o'r graddau yr ydych chi a'ch swyddogion yn credu eu bod wedi gweithredu'n effeithiol yn achos penodol penderfyniad y Cabinet ar 27 Mehefin i wrthod rhoi'r cymorth tanysgrifennu y gofynnwyd amdano ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, o ystyried faint o amser, trafod a chyd-fuddsoddi rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid y sector preifat a roddwyd i'r

prosiect hwn, ei bod yn hollbwysig ein bod yn ymchwilio i'r prosesau hyn, ac felly rwy'n edrych ymlaen at gael eich ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 16 Ionawr 2018, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i drafod yr ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2018. Gan ddibynnu ar yr ymateb, efallai y byddwn hefyd yn gofyn ichi ddod i'r Pwyllgor yn bersonol ar 6 Chwefror 2018 i roi tystiolaeth lafar.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Ionawr 2018

Annwyl Mr Ramsay,

**Cyllid Cychwynnol ar gyfer Cylchffordd Cymru**

Cefais lythyr gennych ar 14 Rhagfyr yn gofyn imi ateb saith cwestiwn a godwyd yn sgil gwrandawiadau'r Pwyllgor ar Gylchffordd Cymru a'r ohebiaeth a'u dilynodd rhwng y Pwyllgor a swyddogion, sef Mr James Price yn bennaf, dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Fe welwch atodiad dros y dudalen a baratowyd gan fy nghydweithwyr yn nhimau'r Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol a Chyllid Canolog Llywodraeth Cymru sy'n cynnig atebion i gwestiynau 1 i 6 eich llythyr.

Yng nghwestiwn 7, gofynnoch am fy nisgwyliadau i o waith y Grŵp Sicrhau ac i ba raddau yn fy marn i y gweithiodd y grŵp yn effeithiol mewn cysylltiad â phenderfyniad y Cabinet ynghylch prosiect Cylchffordd Cymru. O gofio cymhlethdod a phroffil y prosiect hwn, rwy'n falch i James Price fel y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ddod â grŵp o uwch-swyddogion o nifer o adrannau Llywodraeth Cymru ynghyd i herio'r gwaith a chraffu arno. Cefais fy mriffio ar waith y Grŵp Sicrhau ac rwy'n deall i'm cydweithwyr ei weld yn gyfrwng ardderchog, gan iddo ddod ag ystod o arbenigeddau ynghyd i sicrhau bod cynigion y prosiect yn destun craffu trylwyr. Rwy'n fodlon i'r Grŵp Sicrhau roi lefel o her a sicrwydd oedd yn briodol i'r prosiect, a byddaf yn rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith yn y dyfodol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● CathaysPark
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y gwaith diwydrwydd dyladwy a wnaed mewn cysylltiad â Chylchffordd Cymru wedi'i wneud â'r difrifoldeb angenrheidiol gan roi cyngor da i'r Cabinet i'w helpu â'i benderfyniad.

Rwy'n gobeithio bod y manylion ychwanegol yn y llythyr hwn yn rhoi'r eglurder y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdano.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru / Welsh Government



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

**Atodiad: Atebion i Gwestiynau 1-6**

1. **Mae cofnodion y Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol dyddiedig 12 Mehefin 2017 yn datgan:**

***"Wales: Circuit of Wales, currently under due diligence. If classification related issues arise then will inform ONS."***

**Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch naill ai nad oedd y swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn yn ymwybodol o unrhyw faterion dosbarthiad y fantolen a nodwyd yn yr adroddiadau diwydrwydd dyladwy erbyn 12 Mehefin, gan adlewyrchu'r safbwynt trawsadrannol ar yr adeg honno; neu nad oedd yn ymwybodol o'r materion dosbarthu a oedd yn cael eu trafod gan Drysorlys Cymru neu swyddogion Adrannau eraill?**

Roedd y swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwybod bod problemau posib â dosbarthiadau oherwydd cynnig Cylchffordd Cymru. Ar 12 Mehefin 2017, adeg cynnal cyfarfod y Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol, roedd Cylchffordd Cymru yn parhau'n destun ystyriaeth.

Mae'r Cofnodion yn cyfeirio at y ffaith na fyddai'r ONS wedi cael gwybod tan ar ôl penderfyniad mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i gynnig cymorth a than y byddai dogfennau'r contract ar gael yn eu ffurf derfynol neu led derfynol. Nid oedd yr amodau hynny'n bod ar y pryd.

2. **Cyfeiriwyd yn nadl Cyfarfod Llawn y Cynulliad (27 Mehefin 2017) ynghylch penderfyniad Cylchffordd Cymru, ac yn y cyfryngau, at e-bost a anfonwyd gan uwch-swyddog at Aviva Investors ar 14 Mehefin 2017 yn nodi ei fod wedi siarad â chyfreithwyr ynglŷn â chydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad oedd unrhyw 'showstoppers' o ran y prosiect. A yw'n wir i ddweud nad oedd yr uwch-swyddog ychwaith yn gwybod ar y pryd am y cyngor newydd ynghylch dosbarthiad y fantolen a fyddai'n arwyddocaol ym mhenderfyniad y Cabinet i wrthod cyllid ar 27 Mehefin (13 diwrnod yn ddiweddarach)? Ac os nad oedd yn ymwybodol ar 14 Mehefin 2017, pa bryd y daeth i wybod am y cyngor hwn?**

Roedd yr uwch-swyddog yn gwybod am broblemau posibl â'r dosbarthiadau oherwydd cynnig Cylchffordd. Ond roedd y trafodaethau ar 13 Mehefin a'r e-bost dilynol yn ymdrin yn unig â rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE. Dyma destun llawn yr e-bost, dyddiedig 14 Mehefin 2017, a anfonwyd at Aviva Investors:

*"As we are drawing towards the close of our project appraisal process we had a conference with Counsel yesterday on state aid. The good news is that at the moment there does not appear to be any showstoppers but there is one point that I would like to discuss with you in relation to deal structure."*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● CathaysPark
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Wedi hynny, cafwyd sgwrs ffôn rhwng swyddogion ac Aviva i drafod y strwythur y cyfeiriwyd ato yn yr e-bost. O ganlyniad uniongyrchol i'r alwad ffôn, cynigiwyd newid y strwythur ariannu yr oedd Aviva wedi'i gynnig er mwyn i'r cynnig gydymffurfio â'r rheolau cymorth gwladwriaethol. Cyhoeddwyd y strwythur newydd gan Lywodraeth Cymru ar 16 Mehefin a chafodd ei ymgorffori yn nadansoddiad y Fantolen.

Ar 20 Mehefin 2017, rhoddodd Trysorlys Cymru ei gyngor ynghylch dosbarthiadau'r fantolen i'r swyddogion oedd yn paratoi Papur y Cabinet. Roedd y cyngor hwn wedi ystyried y strwythur ariannol newydd a ddarparwyd ar 16 Mehefin 2017.

**3. A oedd y ddau swyddog a oedd yn methu â bod yn bresennol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin, oherwydd eu bod yn 'sicrhau bod y broses diwydrwydd dyladwy a gwaith cysylltiedig yn cael eu cwblhau i sicrhau bod gan y Cabinet y wybodaeth gywir i ystyried y prosiect mewn modd cynhwysfawr' ac yn 'gwneud ei benderfyniad mewn ffordd drylwyr a gwybodus', yn gwybod am y cyngor gan swyddogion Trysorlys Cymru a oedd i'w gyflwyno cyn 27 Mehefin, ac os felly, pryd oeddent yn gwybod hynny?**

Roedd y swyddogion oedd wedi methu â dod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin 2017 wedi clywed cyngor Tîm Trysorlys Cymru ar 20 Mehefin 2017 ar ôl trafodaeth rhwng yr adrannau.

**4. A oedd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd yn gwybod am y cyngor am ddosbarthiad y fantolen a oedd i'w gyflwyno i'r Cabinet cyn iddo ymddangos yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin?**

Oedd, roedd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd yn gwybod am y cyngor a roddwyd ar 20 Mehefin 2017 gan Drysorlys Cymru ar ddosbarthiadau'r fantolen. Ond fel y dywedodd Mr Price wrth gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin, gan nad oedd y Cabinet wedi penderfynu rhoi'r gwarant o £220m eto, ni fyddai wedi bod yn briodol rhoi manylion y prosiect byw bryd hynny.

**5. (a) Pa 'reolau' penodol (e.e. safonau cyfrifyddu, gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, canllawiau'r Trysorlys, rheolau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' neu ganllawiau eraill) y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymhwyso wrth benderfynu a ddylid cynnwys ai peidio yn ei datganiadau ariannol blynyddol (ar wyneb y fantolen neu mewn nodyn i'r cyfrifon) y gefnogaeth ariannol gyhoeddus y mae'n ei darparu i brosiectau cyfalaf mawr fel Cylchffordd Cymru?**

Ceir nifer o "reolau" a chanllawiau ynghylch effaith bosibl cynlluniau fel Cylchffordd Cymru ar ystyriaethau cyfrifyddu a chyllidebu.

Mae Cyfrifon Llywodraeth Cymru'n cael eu paratoi yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM).* Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso'r

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus. Trysorlys ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am y FReM a chaiff ei newid ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) ac ar ôl cael ei gydsyniad. Mae aelodau'r FRAB yn ystyried cyd-destun y Sector Cyhoeddus i benderfynu a ddylid cymhwyso safonau IFRS yn uniongyrchol neu ai eu dehongli fyddai orau.

Dolen i Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM: https://www.gov.uk/government/publications/government-financial-reporting-manual-2017-to-2018

Yn ogystal â'r hyn a ddatgelir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ystyried a fydd unrhyw effeithiau ychwanegol ar y gyllideb. Mae cyllideb Cymru'n rhan o fframwaith gwariant cyhoeddus y DU ac mae gofyn felly i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Chanllawiau Cyllidebu Cyfnerthedig Trysorlys ei Mawrhydi. Daw llawer o'r arweiniad a geir ynddynt o'r egwyddorion a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth baratoi'r Cyfrifon Cenedlaethol - elfen allweddol o hynny yw penderfynu (dosbarthu) p'un a yw endidau'n perthyn i'r sector cyhoeddus (Llywodraeth Ganolog) neu ynteu i'r sector preifat a ph'un a ydynt yn gyrff y marchnad ai peidio. Daw endid y penderfynir ei fod yn perthyn i sector y Llywodraeth Ganolog h.y. o dan reolaeth llywodraeth ganolog, nad yw'n gweithredu o fewn y farchnad, o dan gyllideb Llywodraeth Cymru fel pe bai'n rhan o Lywodraeth Cymru. Mae endidau sy'n cael eu rheoli gan lywodraeth ganolog ond sy'n gweithredu fel corff yn y farchnad yn cael eu dosbarthu'n gorfforaethau cyhoeddus.
Nifer fach o gorfforaethau cyhoeddus a geir yng Nghymru. Daw corfforaethau cyhoeddus o dan gyllideb Llywodraeth Cymru ar sail 'cyllido allanol'. Bydd unrhyw fenthyciadau a godir gan y naill endid neu'r llall yn dod o dan gyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Y brif ystyriaeth fydd yn penderfynu sut y caiff unedau sefydliadol a'u hasedau eu trin o safbwynt cyfrifyddu a chyllidebu fydd p'un a yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu dosbarthu i'r sector cyhoeddus neu i'r sector preifat. Wrth benderfynu ar ddosbarthiadau, bydd yr ONS yn troi at y ddeddfwriaeth Ewropeaidd ddiweddaraf: System Cyfrifon Ewropeaidd (ESA) 2010 a'i chanllawiau dehongli, the Manual on Government Deficit and Debt (MGDD) 2016. Mae diweddariad 2016 o'r MGDD wedi diwygio'r adrannau sy'n ymdrin, ymhlith pynciau eraill, â phennu terfynau sector y llywodraeth gyffredinol, gan gynnwys y cysyniad o reolaeth gan lywodraeth; Partneriaethau Cyhoeddus Preifat; a thrafodion a gwarantau sy'n ymdrin â benthyciadau.

**(b) Y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth nodi a chymhwyso rheolau o'r fath i'w phenderfyniadau ariannu.**

**(c) Disgrifiadau o rolau'r amryw swyddogion/adrannau yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phrosesau o'r fath, a sut/pryd y maent yn rhyngweithio â chyrff perthnasol eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru fel Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Yn Llywodraeth Cymru, mae'r Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn dirprwyo cyfrifoldebau i nifer o Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol (AAO). Cefnogir yr AAO ym mhob Grŵp gan dîm gweithrediadau o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n gyfrifydd cymwysedig. Mater i'r timau cyllid ym mhob Grŵp yw cefnogi'r broses sy'n gysylltiedig â phob penderfyniad cyllido. Lle bo risgiau a/neu gostau na ellir eu priodoli i bortffolio Gweinidog neu os oes materion ariannol arbennig o gymhleth ynghlwm wrth benderfyniad cyllido, gall tîm cyllid y Grŵp alw ar yr arbenigedd yn Nhrysorlys Cymru ac Adran Gyllid Llywodraeth Cymru ynghylch sut i gymhwyso'r rheolau cyfrifyddu, cyllidebu a dosbarthu.

Mae'r timau canolog hyn yn rhyngweithio'n rheolaidd â chyrff fel Trysorlys ei Mawrhydi a'r ONS, yn anffurfiol a thrwy strwythurau ffurfiol. Cynrychiolir swyddogion o'r adrannau hyn ar fyrddau a fforymau fel y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol a'r Fforwm Dosbarthiadau Ystadegol. Hefyd, mae'r ONS yn cyhoeddi canllaw penodol ynghylch rolau cyfranogwyr yn y broses dosbarthiadau a sut i gymhwyso'r broses. (Gweler y ddolen isod).

www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/economicstatisticsclassifications/ukeconomicstatisticssectorandtransactionclassificationstheclassificationprocess#key-roles-in-the-classification-process

**6. Rôl 'Grwpiau Sicrwydd Mewnol', (fel y cyfeirir atynt yn Q24 yn llythyr James Price dyddiedig 11 Medi 2017 at y Pwyllgor), a'r defnydd ohonynt.**

Sefydlodd y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, James Price, y Grŵp Sicrhau Mewnol fel mesur 'penodol' ar gyfer Cylchffordd Cymru. Nid yw defnyddio grŵp o'r fath yn rhan arferol o Broses Llywodraethu neu Gymeradwyo Prosiect. O gofio maint a dylanwad y prosiect, daeth Mr Price i'r casgliad y dylid craffu a herio'r cyngor drafft a baratoir i Weinidogion gan brif swyddogion mor drylwyr â phosib i wneud yn siwr bod y cyngor a roddir i Weinidogion yn mynd i'r afael â phob agwedd allweddol, gan gynnwys y manteision a'r risgiau yn ogystal ag alinio polisïau.

Nid oedd y Grŵp Sicrhau'n rhan o'r broses gymeradwyo ffurfiol ond rhoddodd sicrwydd i uwch-swyddogion bod prosesau arfarnu a diwydrwydd dyladwy y prosiect wedi ymdrin â phob agwedd ar y cynnig, ac y byddai'r cyngor i'r Gweinidogion felly yn gyflawn.

Roedd uwch-swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn aelodau o'r Grŵp. Roedd ganddynt arbenigedd mewn meysydd penodol neu roeddynt yn rhanddeiliaid posib. Yn eu plith yr oedd Cyfarwyddwyr o Dîm Arweinwyr Corfforaethol yr ESNR ynghyd â Chyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Prif Economegydd a Chyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r Grŵp Sicrhau ar bum achlysur rhwng Chwefror a Mehefin 2017, gan gynnwys un cyfarfod â rheolwyr Cylchffordd Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r swyddogion a oedd yn rheoli'r broses diwydrwydd dyladwy ac yn paratoi'r cyngor i Weinidogion a'r Cabinet am ganlyniad pob cyfarfod.

*Diwedd*

Parc Cathays ● CathaysPark
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE